



Pecyn

Codi Arian

Diolch i chi am ddewis codi arian ar gyfer Age Cymru Dyfed, a'n helpu ni i fod yno!

Bydd pob ceiniog a godwyd yn ein helpu i fod yno i bobl hŷn sydd ein hangen fwyaf, gan ddarparu cyfeillgarwch, cyngor a chymorth ymarferol.

Mae hynny'n eich gwneud chi'n seren codi arian ar ddod. Mae'r canllaw defnyddiol hwn yn llawn syniadau ac awgrymiadau i'ch helpu i gael y gorau o'ch digwyddiadau codi arian.

Sut rydym yn helpu, diolch i gefnogwyr fel chi yn 2022-3:



Derbyniodd
1,751 o bobl
wybodaeth a
chygor

Cafodd 636
Gymorth
Befriending

Cafodd 600 eu
cynorthwyo ar
dechnoleg yn eu
cartrefi



Stori Elizabeth

Dyfed
age cymru

LFel cymaint o bobl hŷn yn ein cymunedau, roedd Elizabeth wedi bod yn cael trafferth talu ei biliau ynni. Teimlai'n ynysig ers colli ei gŵr 15 mis ynghynt ac roedd ar y llwybr i waered. Collodd hefyd ei hannwyl gi Labrador yn ddiweddar a heb unrhyw deulu yn agos, roedd Elizabeth yn cael trafferth yn ddyddiol, gan obeithio am olau ar ddiwedd y twnnel

Cafodd Elizabeth gyngor ariannol, i'w helpu i hawlio budd-daliadau nad oedd yn ymwybodol ohonyn nhw o'r blaen. Fe wnaethom ei chefnogi i wneud defnydd gwell o'i ffôn clyfar a rhoi benthyg tabled iddi er mwyn gwneud galwad fideo i'w theulu dramor. Fe wnaethom ei chefnogi gyda chyngor ar arbed ynni a'i rhoi mewn cysylltiad â sefydliadau lleol am gefnogaeth. Mynychodd Elizabeth, gyda'n cymorth ni, grwpiau cymdeithasol a gweithgareddau. Pan oedd hi ein hangen ni fwyaf, roedden ni yno iddi.

Syniadau codi arian:

Ddim yn siŵr pa her codi arian sy'n iawn i chi? Dewch i ddarllen mwy!

Dyfed
Cymru

ag

Ar Eich Pen Eich Hun

Rhoi'r gorau i rywbeth

Rydyn ni i gyd yn ymatal rhag pethau o bryd i'w gilydd - neu'n ceisio - felly beth am gael eich noddi am eich ymdrechion?

Efallai eich bod yn bwriadu ymatal rhag bwyta siocled am ychydig neu peidio ag yfed alcohol am fis. Gosodwch yr her sy'n iawn ar eich cyfer chi a cheisiwch godi arian.

Taith gerdded neu redeg

Mae'n ffordd wych o gadw'n heini. Dywedir wrthym yn aml bod cerdded 10,000 o gamau'r dydd yn dod â llawer o Fanteision iechyd.

Chwiliwch am lwybr cerdded a dewiswch ddyddiad sy'n addas ar eich cyfer chi ac unrhyw un sy'n ymuno ar eich taith. Yna mynnwch hyfforddiant a gofynnwch i ffrindiau a theulu eich noddi. Beth am 3 chopa Cymru – Yr Wyddfa, Cader Idris a Phen y Fan, neu Lwybr Arfordir Cymru? Neu hyd yn oed 1/2 Marathon Llanelli?

Her Rithwir

Mae creu eich her rithwir eich hun yn caniatáu ichi wneud ymarfer corff mewn ffordd hwyliog ac ymgysylltiol.

Os ydych chi'n feiciwr, fe allech chi anelu at reidio'r pellter cyfatebol o Lundain i Baris (300 milltir). Nofiwr? Gallech efelychu pellter Bae Ceredigion neu'r Sianel (21 milltir) neu ddyblygu Nofio Mawr Cymru - 3km, un hyd o Lyn Llanberis neu 9km (3 hyd y llyn).



Gallwch lawrlwytho ffurflen nawdd ar ein gwefan yn agecymrudfyfe.d.org.uk

Ymdrech Grŵp

Arwerthiant Pobi

Mae pobi cacennau a chwcis yn hwyl ac mae eu bwyta hyd yn oed yn well!

Dewiswch ddyddiad ar gyfer eich arwerthiant pobi sy'n gweithio i bawb danfon eich gwahoddiadau allan yn gynnar. Cofiwch nad yw pawb yn bobydd brwd, felly p'un a yw eich pobl yn rhai cartref, neu'n cael eu prynu mewn siop gall pawb gymryd rhan

Sioe Dalent

Mae gan bob un ohonom ddoniau yr ydym yn awyddus i'w rhannu ag eraill, onid oes?

Os ydych chi'n mynd i gynnal sioe, yna bydd angen lleoliad arnoch chi, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn archebu'ch lleoliad yn gynnar ac anfonwch eich gwahoddiadau mewn da bryd.



Raffl

Mae'n glasur codi arian a gellir ei gynnwys fel rhan o fwyafrif o ddigwyddiadau fel sioe dalent.

Meddyliwch am y cysylltiadau sydd gennych a'r hyn y gallent ei gyfrannu fel gwobr. Cofiwch po fwyaf deniadol yw'r gwobrau, y mwyaf tebygol yw hi y bydd pobl yn prynu mwy o docynnau.



Mewn Dathliad

Pen-blwydd neu Ben-blwydd priodas

Mae pobl wrth eu bodd yn rhoi anrhegion ar achlysuron arbennig, felly beth am gyfeirio'r ewyllys da hwnnw at achos gwych?

Sefydlwch dudalen JustGiving neu crëwch godwr arian penblwydd ar Facebook. Os ydych chi'n dathlu gyda pharti, fe allech chi ofyn i bobl sy'n mynychu gyfrannu pan fyddan nhw'n derbyn y gwahoddiad neu gasglu rhoddion yn eich digwyddiad.

Priodas neu bartneriaeth sifil

Gwnewch Age Cymru Dyfed yn rhan o'ch diwrnod arbennig

Rhowch wybod i'ch gwesteion y byddwch yn cefnogi Age Cymru Dyfed fel rhan o'ch diwrnod arbennig. Gallwn ddarparu baneri/fflagiau, balŵns ac amlenni casglu arian parod i helpu ar y diwrnod.

Helpwch ni i
fod yno!
Diolch.



diolch!



Talu eich arian



Unwaith y byddwch wedi cwblhau eich digwyddiad Codi Arian, mae'n bryd talu'r arian rydych wedi'i godi a theimlo'n dda o wybod eich bod wedi gwneud gwahaniaeth.



Ar-lein: agecymrudyfed.org.uk/get-involved/donate/



Dros y teleffon: ffoniwch ni ar Radffon: 03333 447 874



Yn y post: Gellir anfon sieciau'n daladwy i 'Age Cymru Dyfed' i: Age Cymru Dyfed, 27 Stryd y Pier, Aberystwyth. SY23 2LN

Diolch!



Facebook: AgeCymruDyfed



LinkedIn: AgeCymruDyfed



Instagram: AgeCymruDyfed

Gwnewch yn siŵr eich bod yn tagio Age Cymru Dyfed wrth floeddio am eich campweithiau codi arian ar y cyfryngau cymdeithasol.

Y Gallwch hefyd wneud cyfraniad yn bersonol yn un o'n swyddfeydd yn Aberystwyth neu Llanelli.

Cysylltu â Ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gael crysau t, balŵns neu ddeunyddiau eraill gyda brand Age Cymru Dyfed ar gyfer eich digwyddiad codi arian, cysylltwch â ni ar:

reception@agecymrudyfed.org.uk

Rydyn ni eisiau i chi fwynhau codi arian ar gyfer Age Cymru Dyfed, felly sicrhewch eich bod bob amser yn codi arian yn ddiogel ac yn gyfreithlon.

Er nad Age Cymru Dyfed sy'n gyfrifol yn y pen draw am eich digwyddiad codi arian ac na all dderbyn unrhyw atebolrwydd, mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau a byddwn yn falch o helpu.

 Dyfed
age Cymru





Helpa ni i fod yno

Rydyn ni yma i bawb sydd ein hangen ni. Os ydych chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod angen cymorth, mae Age Cymru Dyfed yma i chi.

Ffoniwch ein Llinell Gyngor ar 03333 447 874, gweler: <https://www.ageuk.org.uk/cymru/dyfed/aboutus/contact-us/> ar gyfer amserau agor.

